CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunityCouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Ngholeg Llysfasi, Rhuthun, nos Lun, 3 Gorffennaf 2023 am 7:30pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Moulsdale [Is-gadeirydd], Owen Evans, Osian Owen, David Baker, Shaun Williams (trwy Zoom) ynghyd â'r Clerc, Sian E Thomas.

Rhan 1

Dechreuodd y cyfarfod am 7:30pm.

1041. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1042. Derbyniwyd **ymddiheuriadau** gan y Cynghorwyr Ceri Ranson, Eilir Jones, Simon Knight-Saunders a Huw Edwards a'r Cynghorydd Sir, Hugh Evans.

1043. **Datgan buddiannau.** Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

1044. **Sesiwn Cyfranogiad y Cyhoedd.** Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

1045. **Cytuno ar a llofnodi cofnodion y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2023**
Yn dilyn ystyried y cofodion cytunodd y Cyngor eu bod yn gofnod cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

1046. **Materion yn codi o'r cofnodion:**

a. Mae'r cynlluniau a gyflwynwyd gan y cwmnïau offer maes chwarae ar y wefan erbyn hyn.
b. Cyflwynwyd cais am ganiatâd cynllunio i Gyngor Sir Ddinbych i gyflawni'r gwaith a argymhellwyd gan yr arbenigwr coed.
c. Cysylltwyd â Chyngor Sir Ddinbych ynghylch torri'r clawdd yn yr ardal, ond ni dderbyniwyd ateb hyd yma.
d. Talwyd cyfraniadau o £250 yr un i Gapel Salem ac Ysgol Llanfair. Mae'r ddau wedi diolch i'r Cyngor.
e. Mae'r Clerc wedi anfon neges e-bost yn llongyfarch Pennaeth Ysgol Llanfair ar ei swydd newydd.

1047. **Cynlluniau Hyfforddiant Cynghorwyr**
Mae'r Clerc wedi derbyn cofnod o'r hyfforddiant a ddilynwyd gan y rhan fwyaf o'r cynghorwyr. Bydd yn dadansoddi'r bylchau yn awr i weld pa hyfforddiant arall sy'n ofynnol.

1048. **Cynllun Datblygu Lleol**

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwrw ymlaen â'r trefniadau i lunio Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer 2018-2033, yn dilyn oedi'r gwaith yn ystod y pandemig. Cymeradwywyd y strategaeth a ffafrir ym mis Mai 2023 (manylion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych). Nawr maent yn gweithio ar y cam ymgynghori ffurfiol nesaf – y Cynllun Adneuo, a fydd yn mynd trwy broses ymgynghori yn ddiweddarach eleni. Gwnaed cais am safleoedd yn 2018, ac ymatebodd y Cyngor Cymuned bryd hynny. Bwriad yr ohebiaeth ddiweddaraf oedd sicrhau bod cynghorau'n gyfarwydd â'r safleoedd ymgeisiol. Yn anffodus ni lwyddodd yr un o'r cynghorwyr na'r Clerc i fynd i'r noson wybodaeth yn Rhuthun ar 15 Mehefin. **Gweithred:** Y Clerc i anfon ymateb y Cyngor i Gyngor Sir Ddinbych yn nodi bod yr ymateb yr un fath â'r un a gyflwynwyd yn flaenorol, ond bod y Cyngor Cymuned bellach yng nogfal y cae chwarae ac y dymunir ei dynnu yn ôl fel safle ymgeisiol.

1049. **Cae Chwarae Llanfair DC**

i. Is-grŵp Offer Maes Chwarae
Cyfarfu'r grŵp yn ddiweddar a lluniodd restr o offer a chynllun i'w gyflwyno i gwmnïau er mwyn iddynt dendro am y gwaith. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â'r cwmnïau â diddordeb ac anfon y cynllun atynt a gofyn iddynt dendro am y gwaith er mwyn galluogi llenwi'r ffurflenni cais i'r Loteri Genedlaethol. Nodwyd y bydd yr Is-grŵp yn parhau i fodoli ac yn cydgysylltu â'r contractwyr ac ati tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo.

ii. Grantiau

1. Mae'r Clerc wedi derbyn cadarnhad y bydd y cais am grant gwerth £10,000 gan Ymddiriedolaeth Elusennol yr Iarll Fitzwilliam yn cael ei asesu ym mis Gorffennaf..
2. Cyflwynwyd cais i'r Loteri Genedlaethol am grant o £10,000 i ddechrau'r prosiect Cae Llinos a bydd y Cyngor yn cael ei hysbysu a fu'r cais yn llwyddiannus ai peidio yn ystod y 10 wythnos nesaf.
3. Mae'r Clerc wedi dechrau llenwi cais am grant gan Cadw Cymru'n Daclus ar gyfer eitemau tyfu bwyd, yn cynnwys sied, tŷ gwydr a choed ffrwythau.
4. Dechreuwyd llunio cais arall i'r Loteri Genedlaethol. Amcangyfrifir y bydd hwn yn gofyn am dros £100,000 a bydd yn cael ei gyflwyno unwaith y derbynnir y dyfynbrisiau gan y cwmnïau offer cae chwarae.
5. Talwyd Scottish Power erbyn hyn i symud y polyn o'i eiddo ymhellach ar hyd y gwrych.
6. Bydd y Clerc yn trafod gyda Chadeirydd Pwyllgor y Neuadd i weld a oes modd gwneud cais ar y cyd am grant ar gyfer offer fideo gynadledda.

1050. **Materion Priffyrdd a'r Amgylchedd**

i. Pryderon gor-yrru

Derbyniwyd ymateb gan Darren Millar ynghylch ein cais iddo gefnogi ein hymgyrh am groesfan ar yr A525 y tu allan i'r hen ysgol. Mae'n bwriadu cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych ynghylch hyn.

Mae Ben Wilcox Jones, swyddog Cyngor Sir Ddinbych, yn mynd i edrych ar y rhwystr cerddwyr wrth Cae Mair yn dilyn y pryderon a fynegwyd gan y Cyngor.

Penderfynodd y Cyngor wahodd y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd newydd, unwaith y bydd wedi'i benodi, i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol er mwyn cynnal trafodaeth am gyflwr gwael y ffyrdd.

1051. **Materion Cyllid**

i. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiweddariad am y sefyllfa bancio a'r tasgau ariannol.

ii. Cyflwynodd y rhestr taliadau mis Mehefin 2023 a chytunwyd gwneud yr holl daliadau.

Dyddiad	I	Swm	Sylwadau
01/06/2023	Tenovus	50.00	Cyfraniad
08/06/2023	Sandra Williams	31.86	Cyfieithu
08/06/2023	DoodleIt	150.00	Ffi blynyddol
18/06/2023	Capel Salem	250.00	Cyfraniad
18/06/2023	Ysgol Llanfair	250.00	Cyfraniad
19/06/2023	AVOW	645.40	Cyflog mis Mehefin y Clerc a threuliau a ffioedd
30/06/2023	SP Manweb PLC	1,641.24	Symud y polyn gwifrau trydan
		£3,018.50	

iii. Archwilio Mewnol

Roedd y Clerc wedi llenwi'r Ffurflen Flynyddol i'r archwilydd mewnol. Cytunodd y Cyngor ei fod yn gywir a'i lofnodi gan y Cadeirydd a'r Clerc.

Roedd yr archwilydd mewnol wedi cwblhau ei adroddiad ac yn fodlon bod systemau rheolaethau mewnol y Cyngor yn bodoli, yn ddigonol i'w pwrpas ac yn effeithiol, yn ddarostyngedig i'r materion a nodwyd yn y cynllun gweithredu. Mae'n ofynnol i'r Cyngor roi'r camau gweithredu a ganlyn ar waith:

i. *Dylai'r Cyngor gynnal asesiad risg blynyddol i'w gymeradwyo gan y Cyngor a'i gofnodi yn y cofnodion.*
ii. *Dylid monitro'r gwir wariant yn erbyn y gyllideb yn rheolaidd.*
iii. *Dylid cynnwys dadansoddiad i'r archwilydd mewnol yn rhoi manylion yr hyn a gynhwysir dan gostau staff.*

Cytunwyd ar gynllun gweithredu ar gyfer y gweithredoedd hyn.

Bydd gwybodaeth sut y gall y cyhoedd weld y cyfrifon yn cael ei rhoi ar wefan y Cyngor ac ar yr hysbysfyrddau yn awr. Bydd y gwaith o baratoi'r cyfrifon i'w cyflwyno i'r archwilydd allanol yn dechrau hefyd.

Diolchodd y Cynghorwyr i'r Clerc am ei gwaith caled.

Cynigiodd y Cynghorydd Moulsdale atgyweirio'r hysbysfwrdd ar wal yr hen ysgol. Bwriedir gwneud y gwaith hwn yn ystod mis Awst.

1052. **Materion Cynllunio**

Bro Helyn, Llanfair DC. Dim gwrthwynebiadau.

1053. **Asesiad Risg Blynyddol**
Gweithred: Y Clerc i gynhyrchu un ar gyfer 2023/24.

1054. **Gohebiaeth i'w adolygu**

a. **Fforwm Haf Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy –** i'w ychwanegu fel eitem i'w thrafod ar agenda cyfarfod y Cyngor ym mis Medi.
b. Cytunwyd rhoi poster yr ymgyrch Bathodynnau Glas ar wefan y Cyngor.
c. Arolwg cysylltedd. Anogwyd y Cynghorwyr i ateb cwestiynau'r arolwg. **Gweithred:** Y Clerc i wahodd Phil Burrows, swyddog Cyngor Sir Ddinbych, i gyfarfod yn y dyfodol i drafod cysylltedd rhyngrwyd yn yr ardal.

1055. **Eitemau y tynnwyd sylw'r Cyngor atynt gan Gynghorwyr**

a. Crybwyllodd y Cynghorydd Moulsdale fod efwr enfawr yn tyfu ar ymyl y llwybr nesaf at yr ysgol newydd, llwybr rhif 3 yn Llanfair, ac nad oedd wedi'i dorri. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i'w hysbysu am hyn gan ei fod yn llwybr poblogaidd.
b. Nododd y Cynghorydd Williams fod y llwybrau wrth y ddwy arosfan yn Llysfasi wedi gordyfu. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych.

1056. Cytunwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar 4 Medi 2023 yng Ngholeg Llysfasi am 7:30pm.

Gorffennodd y cyfarfod am 8:30pm.

CADEIRYDD DYDDIAD